Efengyl Marc

Astudiaeth 1

Darllenwch Marc 1:1-8

> *1 Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw.*
> *2 Fel y mae'n ysgrifenedig yn y proffwyd Eseia: "Wele fi'n anfon fy nghennad o'th flaen i baratoi dy ffordd.*
> *3 Llais un yn galw yn yr anialwch, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo' "-*
> *4 ymddangosodd Ioan Fedyddiwr yn yr anialwch, yn cyhoeddi bedydd edifeirwch yn foddion maddeuant pechodau.*
> *5 Ac yr oedd holl wlad Jwdea, a holl drigolion Jerwsalem, yn mynd allan ato, ac yn cael eu bedyddio ganddo yn afon Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau.*
> *6 Yr oedd Ioan wedi ei wisgo mewn dillad o flew camel a gwregys o groen am ei ganol, a locustiaid a mêl gwyllt oedd ei fwyd.*
> *7 A dyma'i genadwri: "Y mae un cryfach na mi yn dod ar f'ôl i. Nid wyf fi'n deilwng i blygu a datod carrai ei sandalau ef.*
> *8 Â dŵr y bedyddiais i chwi, ond â'r Ysbryd Glân y bydd ef yn eich bedyddio."*

Pwy John Marc?

Union rôl ac arwyddocâd John Marc yn yr Eglwys Fore braidd yn amwys. Yn Actau 13 fe glywn ei fod ar daith cenhadol gyda Barnabas a Paul ond yn Adnod 13:13 fe glywn ei fod wedi eu gadael a dychwelyd i Jerwsalem. Hyn wedi arwain pobl i dybio mae dyn heb *stick* oedd John Marc. Un oedd yn rhoi fynnu'n hawdd. Rhai wedi awgrymu mae dychwelyd i Jerwsalem i ofalu am ei Fam oedd mewn gwaeledd a wnaeth. Ond y farn gyffredinol ynglŷn a'i ddychwelid i Jerwsalem ydy'r dybiaeth ei fod rhywbeth i wneud a'r anghydfod rhwng plaid yr enwaediad a'r blaid oedd am dderbyn rhai heb eu henwaedu i'r eglwys. Yn Actau 13:5 mae sôn fod John Marc yn “gynorthwywr” - yng nghyfieithiad Williams Morgan maen sôn ei fod yn “weinidog” ac yn y Groeg maen debyg mae'r gair ydy “hupéretés” (hoop-ay-ret'-ace); gair sydd a'i ystyr cywir wedi golli mewn cyfieithiadau maen debyg. Nid unrhywfath o gynorthwyydd oedd John Marc ond yn hytrach math arbennig o gynorthwyydd sydd yn y Groeg gwreiddiol. Cynorthwyydd oedd a rôl arbennig sef cofnodi hanesion a digwyddiadau'n fanwl ac yna arbenigo ar eu dehongli a'u hadrodd.

Maen debyg felly y byddai John Marc wedi mynd a hanes Paul a'r genhadaeth yn ôl i

Pedr a'r Eglwys yn Jerwsalem. Er maen debyg fod John Marc yn ffigwr oedd yn pontio Paul a Pedr maen debyg mai at Pedr yr oedd agosaf. I ryw raddau felly yr Efengyl yn ôl Pedr sydd gyda ni fan hyn ond fod John Marc yn ei rôl fel "cynorthwyydd" wedi ymgymryd ar dasg, fel un oedd wedi ei hyfforddi a threulio llawer o amser gyda Pedr, i gofnodi'r Efengyl. Mae Tystiolaeth yn yr efengyl ei hun hefyd yn awgrymu mai Pedr oedd prif ffynhonnell John Marc oherwydd ceir adroddiadau manwl a thrawiadol o ddigwyddiadau gyda Pedr yn bresennol ond eto, yn wahanol i Mathew a Luc ceir pwyslais ar wendidau Pedr yn hytrach na canmoliaeth. Hyn yn dangos gostyngeiddrwydd o ran Pedr wrth adrodd yr Hanes.

Er mai un o bobl Pedr rhagor na Paul oedd John Marc mae'n arwyddocaol mai prif fyrdwn yr efengyl yw'r alwad i bawb, y cenhedloedd yn ogystal a'r Iddewon, i ddilyn Iesu. Felly er fod John Marc yn ysgrifennu ac yntae'n Iddew yn Jerwsalem (er maen debyg ei fod yn Rhufain erbyn iddo gofnodi'r efengyl) mae'r efengyl wedi ei anelu at y cenhedloedd fyddai'n anghyfarwydd gyda'r arferion Iddewig. Mae'n sôn am yr arferion ar traddodiadau Iddewig er mwyn i bobl gyfarwyddo a hwynt er mwyn deall arwyddocâd y Meseia yng nghyd destun cynllun Duw i adfer Israel a'r byd yn gyfan.

Roedd Olaf yn dweud fod Eirwyn Morgan arfer cyfeirio at John Marc fel "dyn camera" stori'r efengyl. Un o fy *Study Bibles* i yn cyfeirio at efengyl Marc fel "docudrama" yn cynnwys "clips" a "snatches" o bregethau, damhegion a digwyddiadau pwysig. *Edited highlights*, ond fod popeth sydd o bwys, o dragwyddol bwys, wedi ei gynnwys.

Marc 1:1-8

Marc yn cychwyn trwy nodi mae dyma efengyl, newyddion da, Iesu Grist. Felly o'r cychwyn rydym ni'n sefydlu mae'r canolbwynt ydy Iesu Grist (Ad. 1). Marc yn nodi wedyn mai Ioan Fedyddiwr oedd y "cennad o'th flaen" y proffwydoliaethwyd amdano (Ad. 2-3). Cenhadaeth Ioan Fedyddiwr fan yma yn bwysig iawn yn ei gyfnod oherwydd daeth fel sioc i ddeffro pobl o drwmgwsg. Pan fydd y ffôn neu gloch y tŷ yn canu'n

hollol annisgwyl yng nghanol nos. Y math yna o sioc. Roedd gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr yn sioc i'r byd Iddewig. Roedd llawer wedi bod yn edrych am arwydd gan Dduw ond byth wedi dychmygu y byddai'n edrych fel hyn. Roedd pawb wedi disgwyl Meseia milwrol i'w harwain i'r gad yn erbyn y Rhufeiniaid. Ond yr hyn gaethon nhw oedd proffwyd yn eu galw i edifarhau. Dywedodd Tom Wright:

> "John was a voice, shouting across the dreams, and perhaps the nightmares, of the Judaism of Herod and Caiaphas, the Judaism that told again and again the story of freedom but had no idea what freedom would look like when it came."

Byddai Ioan Fedyddiwr yn adrodd yr hanesion cyfarwydd am waredigaeth yr Israeliaid o'r Aifft ac addewid Duw o waredu ei bobl. Ond roedd twist newydd i neges Ioan – mynnai fod Israel ei ddydd yn mynd y ffordd anghywir – yn edrych y ffordd anghywir – ac fod angen troi rownd a mynd y ffordd arall – mewn geiriau eraill roedd angen "edifarhau". Roedd Ioan yn cyhoeddi "bedydd edifeirwch" sef bedydd fel arwydd o edifeirwch (Ad. 4). Bedydd fel symbol allanol o dro pedol yn y galon. Ac maen amlwg fod pobl yn ymateb i'w neges (Ad. 5). Falle fod ddim lot yn ymateb i'r Efengyl yng Nghymru heddiw ond mewn gwledydd lle mae'r dystiolaeth Gristnogol dal yn ifanc ac yn ffres mae'r ymateb yn debyg i'r ymateb cawsai Ioan – yr "holl drigolion".

Roedd neges Ioan Fedyddiwr yn *urgent* iawn. Roedd rhywun yn dod, ac yn dod yn fuan ac felly roedd rhaid paratoi. Maen debyg i'r Frenhines gwyno unwaith ei bod hi'n medru ogleuo paent ffres bobman mae hi'n mynd! Mae yna grysau-t poblogaidd ymysg pobl ifanc dyddiau yma gyda'r slogan "look busy Jesus is coming" arno. Ac pan ddaeth y sinemâu i Gymru'n gyntaf roedd y Gweinidogion arfer herio eu praidd i ystyried o ddifri beth petae'r Iesu yn dychwelyd a hwythau yn y sinema? Ond nid y math yma o baratoi sydd gan Ioan mewn meddwl – ond yn hytrach paratoad yn y galon. Troi cefn ar yr hunan i ddilyn, caru a gwasanaethu'r Arglwydd.

Rydym ni'n gweld fod Ioan yn foi reit syml a gwyllt (Ad. 6) a fyddai'n sicr ddim yn

dderbyniol gan lawer o Grefyddwyr Cymru heddiw – ddim mwy nag oedd yn dderbyniol gan Grefyddwyr Jwdea a Jerwsalem. Mae yna her i ni fan hyn. Llawer yn ddirmygus o bobl jest oherwydd eu bod nhw yn flêr ond y gwir amdani yw fod rhai pobl blêr yn gyfathrebwyr gwych o'r efengyl. Ar y llaw arall mae yna ddigon o fleiddiaid allan yna sy'n edrych yn dderbyniol ac sy'n slic iawn ond o graffu ar eu neges does yna ddim sylwedd – *pomp* yw'r cyfan.

Daw'r adran i ben gyda dau osodiad trawiadol gan Ioan sef ei annheilyngdod i ddatod sandalau'r un sy'n dod (Ad. 7) ynghyd a'r addewid o'r Ysbryd Glan (Ad. 8). Y rheswm fod Ioan yn annheilwng o ddatod sandalau'r Un oedd yn dod ar ei ôl oedd oherwydd mai nid jest dyn ydoedd ond ei fod yn Dduw. Ac mae Duwdod Iesu yn cael ei sefydlu fan yma ar ddechrau'r efengyl. Yr awdurdodau mwyaf ar y pryd oedd y swyddogion Rhufeinig ac roedd hi'n arfer i weision ddatod eu sandalau nhw. Felly yr awgrym fan yma yw fod yr Un oedd yn dod uwchlaw unrhyw awdurdod dynol. Roedd yn Dduw.

Daw'r adran i ben gyda'r pwyslais yma eto mae nid yr allanolion oedd o dragwyddol bwys ac fod bedydd yn bwysig efallai ond fod yr Iesu am ein bedyddio a'r Ysbryd Glan. Rhywbeth ysbrydol ac nid jest symbol allanol yn unig mo hwn.

Prif ergyd Marc i ni yn y cymal agoriadol yma felly ydy gwneud i ni sylwi fod rhywbeth newydd ar droed. Daeth y cyfan fel sioc, fel mellten i'r byd Iddewig oedd yn pendwmpian. Ac felly y cwestiwn i ni yw hyn: ydym ni'n barod i ddeffro hefyd?

Rhys Llwyd
1 Hydref 2009